Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**DRAFFT - DIOGELU**

Cyfathrebu Corfforaethol

# CANLLAWIAU AR GYFER CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Heddlu Police DYFED POWYS

## PERCHENNOG Y POLISI

**Emma Northcote** – Uwch Reolwr Cyfathrebu Corfforaethol

Ffôn: 01267 236664 E-bost: emma.northcote@dyfed-powys.pnn.police.uk

Cliciwch: Ein Strwythur

## 1. CANLLAWIAU YNGLŶN Â CHYFRYNGAU CYMDEITHASOL AR GYFER POB AELOD STAFF

Yma yn y tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn Heddlu Dyfed-Powys, rydyn ni'n brofiadol o ran defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac yn gwybod sut i gael y mwyaf o'r platfformau pwysig hyn.

Mae ein cyfrifon gorau'n cael eu cydnabod fel ffyrdd effeithiol ar gyfer ymgysylltu â'n cymunedau, rhannu gwybodaeth bwysig ac arddangos y gwaith a wneir pob dydd i ddiogelu'n cymunedau.

Eisoes, mae gennym straeon* da iawn i'w rhannu ar draws ein sefydliad a gwaith diddorol tu ôl i'r llenni sydd â'r potensial i fynd ag ymgysylltu â chyfoedion, partneriaid a'r gymuned i lefel newydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi fod yn glir ynglŷn â'ch stori...

***Eich stori** = Eich rheswm dros fod ar gyfryngau cymdeithasol… Yr hanes sydd gennych i'w ddweud yn gryno.

## 2. MAE EIN CYFRIFON CYFRYNGAU CYMDEITHASOL YN ASED

Mae'n cymryd llawer o amser i greu a rheoli cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol, felly ni ddylid ymgymryd â'r dasg yn ysgafn.

Wedi'i wneud yn dda, gall cyfryngau cymdeithasol helpu ein cymunedau i gael y wybodaeth maen nhw eisiau'n gyflym sy'n medru, yn ei dro, lleihau'r angen i unigolion ein galw neu ymweld â ni, sy'n medru elwa pawb ohonom.

Gan ddibynnu ar eich stori, gall cyfryngau cymdeithasol hefyd eich helpu i adeiladu gwell perthnasau gyda phartneriaid, adnabod arfer gorau a datrysiadau i heriau a rennir, ac adeiladu rhwydweithiau gyda phobl sydd o'r un meddylfryd. Nid oes rhaid i'ch cysylltiad fod â'n cymunedau o reidrwydd, ond cofiwch bob amser bod cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyfle i ni gyd ddangos i'n cymunedau beth rydyn ni'n gwneud ar eu cyfer.

## 3. BETH SY'N DIGWYDD PAN MAE'N MYND O'I LE…

Pan mae cyfryngau cymdeithasol yn mynd o'i le, gall fynd yn anhygoel o anghywir ac achosi llu o broblemau i'r sefydliad.

Rydyn ni'n siŵr na fyddech chi'n ei wneud yn fwriadol, ond pe baech chi neu unrhyw aelod staff arall yn gwneud neu'n dweud rhywbeth niweidiol neu amhriodol ar gyfrif cymdeithasol sefydliadol, yna bydd ein polisïau safonau proffesiynol presennol yn berthnasol. Peidiwch â gadael i hynny ddigwydd i chi.

## 4. AGOR CYFRIFON NEWYDD

Rydyn ni'n derbyn nifer o geisiadau mewnol i sefydlu neu gymeradwyo cyfrifon newydd, ac weithiau, mae'n bosibl mai agor cyfrif newydd yw'r peth iawn i wneud os yw'r achos busnes yn gwneud synnwyr a bydd gwerth am yr amser sylweddol a fuddsoddir mewn cyfryngau cymdeithasol. Ond, yn amlach na pheidio, defnyddio'r cyfrifon corfforaethol sydd â llawer iawn o ddilynwyr yw'r dacteg orau.

Os ydych chi'n ystyried agor cyfrif newydd, mae'n rhaid i chi siarad â'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn gyntaf. Cytunwyd bod y penderfyniad ynglŷn â pha un ai a ellir agor cyfrif sefydliadol newydd yn gorwedd gyda'r tîm hwnnw.

Os ydych chi'n teimlo bod gennych wybodaeth werthfawr i'w rhannu ac yn awyddus i ymgysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol, e-bostiwch pressoffice@dyfed-powys.pnn.police.uk a bydd un o'r tîm mewn cysylltiad i drafod eich stori a'r dewisiadau sydd ar gael.

## 5. LLYWODRAETHU DA

Rydyn ni'n cofleidio arloesedd ac rydyn ni o hyd yn edrych am ffyrdd newydd neu wahanol o gyflawni tasgau. Ond, er mwyn annog arloesedd a chaniatáu i ffyrdd newydd o gyflawni tasgau dyfu mewn amgylchedd diogel, mae'n hollbwysig fod gennym lywodraethu da mewn grym.

Mae llywodraethu da'n cynnwys chithau'n rhannu'r cyfrineiriau ar gyfer pob cyfrif corfforaethol â ni bob amser. Rydyn ni'n ystyried cyfrif corfforaethol i fod yn gyfrif lle'r ydych chi'n adnabod eich hun fel aelod presennol o Heddlu Dyfed-Powys yn eich lluniau proffil a/neu'ch bywgraffiad ar eich tudalen. Bydd eich manylion yn cael eu cadw mewn taenlen a ddiogelir gan gyfrinair, a bydd y cyfrinair ond yn cael ei ddefnyddio os oes wir angen. Byddwn ni ond yn gwneud hyn pan na fydd dewis arall ac os ydyn ni'n methu â chael gafael arnoch chi yn y lle cyntaf, ac ni fyddwn byth yn postio ar eich rhan.

Byddwch chi hefyd yn cael eich ychwanegu at grŵp cyswllt ar Twitter drwy neges uniongyrchol. Mae'n bwysig nad ydych chi'n gadael y grŵp hwn – defnyddir y grŵp i gyhoeddi negeseuon llwyrddüwch, cyfarwyddiadau ynghylch rhannu negeseuon, negeseuon allweddol ac ati yn ystod digwyddiadau mawr.

# 6. NID BWLED ARIAN YW CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Rydyn ni wedi croesawu cyfryngau cymdeithasol â breichiau agored, fel y mae plismona yn genedlaethol wedi gwneud, ond nid bwled arian ydyw ac nid yw'n ffordd gyflym o gyflawni'ch amcanion a'ch blaenoriaethau. Medrwn eich helpu i ddeall pa blatfformau cyfryngau cymdeithasol, os o gwbl, sydd fwyaf addas ar gyfer eich neges a'ch cynulleidfa darged.

# GAIR I GALL

Dyma ganllaw i’r hyn a ddisgwylir gan unrhyw un sy’n gweithredu cyfrif sy’n cael ei gydnabod fel cyfrif swyddogol Heddlu Dyfed-Powys.

Fel canllaw cyffredinol, atgoffir staff na ddylent byth postio rhywbeth ar gyfryngau cymdeithasol na fyddent yn barod i’w ddweud mewn cyfarfod neu fforwm gyhoeddus. **Mae ein safonau proffesiynol a’n polisïau AD yn berthnasol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol hefyd, felly peidiwch â chael eich hun i helynt** – dewch i siarad gyda ni yn y tîm Cyfathrebu Corfforaethol os oes gennych unrhyw syniadau, pryderon neu gwestiynau.

## Gwnewch…

- ceisiwch gymeradwyaeth y tîm Cyfathrebu Corfforaethol cyn sefydlu unrhyw gyfrif newydd – dywedwch wrthym beth yw’ch stori a’r cynllun sydd gennych ar gyfer cyfrif posibl.
- rhannwch eich cyfrineiriau â’r tîm cyfathrebu. Bob tro. Hefyd, cofiwch roi gwybod i ni pan fyddwch chi’n newid eich cyfrinair.
- edrychwch ar y cyfrif corfforaethol yn gyntaf bob tro adeg digwyddiadau, a dilynwch arweiniad y cyfrif hwnnw.
- gwnewch yn siŵr bod gennych gynllun ar gyfer eich cyfrif - cytunwch ar eich stori a’ch amcanion, a sicrhewch eich bod chi’n deall pa gynnwys sydd angen a phryd. Dylech greu a rhannu’ch cynnwys ar yr adegau y mae eich cynulleidfa yn fwyaf tebygol o ddefnyddio’r sianeli hyn. Siaradwch â’r tîm Cyfathrebu Corfforaethol am gynllunio templedi i’ch helpu.
- byddwch yn arloesol – mae ymagweddau gwahanol yn gweithio ar gyfer gwahanol bobl.
- dylech fod â phersonoliaeth - ni fydd iaith gorfforaethol yn gweithio’n dda ar gyfryngau cymdeithasol, ac ni fydd dim ond cyhoeddi datganiadau i’r wasg yn gweithio’n dda chwaith.
- defnyddiwch hashnodau, ond defnyddiwch nhw’n briodol a strategol. Dylai’ch hashnod fod yn amcan, yn ddigwyddiad neu’n ymgyrch. A yw’r hashnod wedi’i ddefnyddio o’r blaen? Os ydyw, a yw’n unol â’ch neges a blaenoriaethau’n sefydliad?
- rhannwch ddolenni a chynnwys defnyddiol pobl eraill. Hefyd, rhowch glod i waith, dolenni a syniadau pobl eraill.
- ydych chi ar gyfrif tîm? Dylai fod gennych gynllun clir ar gyfer y cyfrif. Os mai dim ond un person sy’n rhedeg cyfrif tîm, beth yw’r cynllun pan mae’r person hwnnw ar wyliau neu’n symud ymlaen? Dylai cyfrif tîm fod ar gyfer y tîm CYFAN.
- ystyriwch eich cyfrif cyfryngau cymdeithasol fel sianel gwasanaeth cwsmer a byddwch yn barod i ymateb i ymholiadau’n gyflym ac effeithiol, mewn modd y byddech chi’n hapus ag ef pe baech chi’n holi’r cwestiwn.
- gwrandewch – lluniwyd cyfryngau cymdeithasol i fod yn sianel dwy ffordd. Fel unrhyw sgwrs dda, holwch eich cwestiynau eich hun. Ceisiwch adborth gan eich dilynwyr.
- dylech fonitro eich cyfrifon yn ddyddiol ac ymateb i gwestiynau ar yr un diwrnod.

## PEIDIWCH…

- darlledu neu siarad i bobl.
- blocio pobl sy’n anghytuno â chi! Siaradwch â’r tî, Cyfathrebu Corfforaethol os ydych chi’n teimlo bod rhywun yn eich pryfocio’n fwriadol.
- ceisio cuddio camgymeriadau. Byddwch yn onest, ac yn y pen draw, cewch fwy o barch.
- postio cynnwys a fydd yn codi cywilydd ar y sefydliad neu chi’ch hun.
- anwybyddu cyngor cyfreithiol. Mae’r cyngor yno i’ch helpu.
- meddwl y bydd ymwrthodiad yn eich bywgraffiad yn eich arbed rhag camau cyfreithiol posibl.
- creu cyfrifon a gobeithio y bydd pobl yn dod atoch chi. Weithiau, mae’n well mynd i’r llefydd lle mae’ch cynulleidfaoedd eisoes yn sgwrsio. Edrychwch ar yr hyn y mae’ch cydweithwyr a’ch cyfoedion yn gwneud.
- cymryd yn ganiataol y bydd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn gofalu am eu hunain – bydd angen i chi fuddsoddi amser, brwdfrydedd ac egni i sicrhau llwyddiant, a pheidiwch byth â gadael eich cyfrifon heb ofalydd am gyfnodau hir.
- tybio bod cyfryngau cymdeithasol ‘am ddim’ – nid yw hynny’n wir. Mae eich amser yn costio i’r sefydliad. Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn weithgaredd sy’n cymryd amser ac mae’n rhaid i chi ystyried hyn yn erbyn eich gwaith arall a’ch blaenoriaethau. Mae meddalwedd a ddefnyddir gan y tîm Cyfathrebu Corfforaethol i fonitro cyfryngau cymdeithasol hefyd yn costio arian ac mae’n costio’r sefydliad i fonitro pob cyfrif unigol.
- parhau â chyfrifon amhoblogaidd – weithiau, mae’n well cau cyfrif sydd ddim yn cyflenwi, sydd ddim yn effeithiol, neu sydd ddim yn weithredol. Mae gan y tîm Cyfathrebu Corfforaethol yr awdurdod i gau cyfrifon o’r fath.
- rhannu’ch cyfrineiriau ag unrhyw un ar wahân i’ch tîm cyfathrebu.
- anghofio bod cyfryngau cymdeithasol yn rhywbeth 24/7!
- gadael y grŵp cyswllt ar system negeseuon uniongyrchol Twitter. Cafodd ei sefydlu i sicrhau eich bod chi’n gweithredu yn unol â strategaeth sefydliadol yn ystod adegau o argyfwng a sicrhau nad ydych chi’n rhoi eich hun neu'r sefydliad mewn perygl yn ddiangen. Daw’r dysgu hwn yn dilyn digwyddiadau terfysgol cenedlaethol.



## OS YDYCH CHI EISIAU PARHAU, BETH SY’N DIGWYDD NESAF?

1. Meddyliwch am y stori sydd gennych i’w dweud.
2. Pwy yw’ch cynulleidfa darged? Ble maen nhw? Beth sydd o ddiddordeb iddynt?
3. Gwnewch drefniadau i siarad â’r tîm Cyfathrebu Corfforaethol am y platfform mwyaf priodol (anfonwch e-bost atom yma).
4. Dal eisiau parhau? Da iawn, yna bydd y tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn eich helpu i sefydlu’ch cyfrif.

# FFURFLEN GYTUNDEB
# Cyfryngau Cymdeithasol

**Ar gyfer defnydd y swyddfa yn unig**

Derbyniwyd gan: ......................................
Dyddiad derbyn: ......................................
Awdurdodwyd gan: ..................................

**Mae hwn yn gytundeb rhwng y gweithiwr a enwir a Heddlu Dyfed-Powys.**

Enw'r gweithiwr: ....................................................................................................................................

Enw i'w ddefnyddio ar gyfryngau cymdeithasol (h.y. enw'r unigolyn neu'r tîm): ......................................

Math o gyfrif cyfryngau cymdeithasol (rhowch gylch o gwmpas eich dewis)

Twitter

Grŵp Facebook
*(sy'n gysylltiedig â'r dudalen gorfforaethol)*

Arall......................................

**Telerau ac amodau.**
*Trwy lofnodi a dychwelyd y ffurflen hon, rydych chi'n cytuno i <u>bob un</u> o'r isod.*

- Rydw i wedi darllen Canllawiau Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer Cyfryngau Cymdeithasol ac yn cytuno i weithredu cyfrifon corfforaethol yn unol â hynny.
- Rwy'n cytuno i ddatgelu cyfrineiriau ac enwau defnyddiwr ar gyfer cyfrifon i'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol fel bod modd eu cofnodi ar gofrestr cyfrifon a ddiogelir gan gyfrinair.
- Rwy'n deall y gellir gofyn i mi ddileu negeseuon sy'n cael eu hystyried yn amhriodol gan y tîm Cyfathrebu Corfforaethol neu'r adran Safonau Proffesiynol.
- Ni fyddaf yn dwyn anfri ar yr heddlu yn fwriadol.
- Rwy'n deall bod yn rhaid i bob gohebiaeth drwy gyfryngau cymdeithasol gydymffurfio â'r safonau ymddygiad proffesiynol ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu.
- Rwy'n cytuno i roi adborth i'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol bob mis ar sut y mae'r cyfrif wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â'ch cynulleidfa darged.

*Rwy'n cytuno i bob un o'r uchod (ticiwch yma)* ☐

<u>Gweithiwr:</u> (printiwch eich enw) ........................ (llofnodwch) .................... (dyddiad) / /

**Enw defnyddiwr: ........................................ Cyfrinair: ........................................**

**Llofnodwch y ffurflen hon a'i dychwelyd at y tîm Cyfathrebu Corfforaethol ym Mhencadlys yr Heddlu**
... a chofiwch roi gwybod i ni os ydych chi ein hangen neu os oes gennych syniadau arloesol rydych chi eisiau rhannu!